# Cefnogi plant a phobl ifanc i fynd i'r afael â'u hymddygiad

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â helpu plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu, neu sydd mewn perygl o droseddu, i ddeall pam y gellid ystyried bod agweddau ar eu hymddygiad yn heriol, a manteision mynd i'r afael ag agweddau felly.

Mae hyn yn cynnwys herio eu hymddygiad a'u cefnogi a'u hannog i newid. Mae angen i chi gydnabod yr ystod gymhleth o ffactorau a allai arwain at droseddu a gallu helpu plant a phobl ifanc i werthfawrogi eu hunain ac eraill.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1.
cyfathrebu ar gyflymder a lefel sy'n briodol i'r plentyn neu'r person ifanc a sicrhau'r diogelwch, hawliau ac urddas gorau posibl i'r rhai dan sylw wrth ddelio â'u hymddygiad
2.
hwyluso modd agored ac adeiladol o gyfnewid barn a gwybodaeth
3.
cefnogi plant a phobl ifanc i fyfyrio ar eu hymddygiad ac i nodi'r agweddau heriol a'r canlyniadau cysylltiedig
4.
helpu plant a phobl ifanc i ystyried effaith bosibl eu hymddygiad:
5.
cynnig gwybodaeth a chyngor ar fanteision newid cadarnhaol, gan gydnabod cymhlethdod y sefyllfa
6.
archwilio gyda'r plentyn neu'r person ifanc ei agweddau at droseddu a'i gymhelliant i newid
7.
herio agweddau ac ymddygiad sy'n gamdriniol, ymosodol neu wahaniaethol, gan ystyried eich diogelwch personol
8.
rhoi cymorth i'r plentyn neu'r person ifanc ac eraill sy'n rhan o achosion o ymddygiad heriol
9.
ystyried anghenion a theimladau'r plentyn neu'r person ifanc, a'i ymatebion i ymyriadau
10.
nodi lle y gallai fod angen asesiad arbenigol ac esbonio'r angen am hyn i'r plentyn neu'r person ifanc, ei deulu neu ofalwr
11.
helpu plant a phobl ifanc i werthfawrogi eu hunain yn gadarnhaol ac i gydnabod eu cryfderau a'u gallu i newid
12.

cefnogi plant a phobl ifanc i ddewis opsiynau y gallant eu rhoi ar waith ac ymrwymo iddynt

13.

ystyried ffactorau, gan gynnwys rhai hanesyddol, seicolegol a sefyllfaol, a allai fod wedi cyfrannu at ymddygiad heriol gyda'r plentyn neu'r person ifanc ac eraill dan sylw

14.

cytuno ar nodau a ffiniau sy'n briodol i amgylchiadau'r plentyn neu'r person ifanc a’u hegluro gan ddefnyddio cyflymder a lefel sy'n briodol i'w ddealltwriaeth a'i ofynion

15.

nodi pryd mae ymddygiad plentyn neu berson ifanc y tu allan i'r nodau a'r ffiniau derbyniol y cytunwyd arnynt mewn ffyrdd sy'n bodloni ei ofynion

16.

rhannu gwybodaeth gyda'r rhai sydd â'r hawl i'w gweld wrth gytuno ar strategaethau i alluogi plant a phobl ifanc i reoli eu hymddygiad

17.

cydnabod gwrthdaro a thensiynau heb eu datrys rhwng y plentyn neu'r person ifanc a phobl eraill berthnasol a thrafod sut y gellir nodi, datrys a bwrw ymlaen â'r rhain

18.

ceisio cymorth, gwybodaeth a chyngor perthnasol i helpu i ddatrys anawsterau yn unol â'r amserlenni gofynnol

19.

cwblhau a chadw cofnodion yn unol â gofynion sefydliadol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1.
deddfwriaeth berthnasol a pholisïau a gweithdrefnau sefydliadol sy'n berthnasol i’ch sefydliad eich hun ar gyfer y gwaith sy'n cael ei wneud
2.
effaith datblygiad corfforol, cymdeithasol, seicolegol ac emosiynol ar ymddygiad plant a phobl ifanc
3.
sut y gall cydraddoldeb ac anghydraddoldeb effeithio ar blant a phobl ifanc
4.
yr effaith y gall troseddu ei chael ar ddioddefwyr a'u hangen i gael eu hamddiffyn, eu parchu, eu cydnabod a chael gwybodaeth
5.
ffyrdd o annog plant a phobl ifanc i weld yr angen i newid eu hymddygiad a datblygu'r cymhelliant i wneud hynny
6.
y rhwystrau rhag newid a allai fodoli i blant a phobl ifanc a'r dulliau o'u goresgyn
7.
pam mae’n bwysig helpu plant a phobl ifanc i ystyried effeithiau eu dewisiadau ar eraill ac i fod â pherchnogaeth ar y penderfyniadau y maent yn eu gwneud a bod yn gyfrifol amdanynt
8.
y dystiolaeth am effeithiolrwydd gwahanol ffyrdd o gefnogi plant a phobl ifanc i newid eu hymddygiad
9.
sut i gyfathrebu â phlant a phobl ifanc a sut i addasu yn briodol
10.
sut i gymhwyso egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth ac arferion gwrth-wahaniaethol i'ch gwaith
11.
sut i werthuso eich cymhwysedd pan fyddwch yn y gwaith ac i benderfynu pryd mae angen cymorth ac arbenigedd pellach

12. mathau o gymorth ychwanegol y gallai fod ei angen ar blant a phobl ifanc

1.

datblygiad plant gan gynnwys sgiliau corfforol, gwybyddol, emosiynol, cymdeithasol a chyfathrebu
2.
sut i hyrwyddo amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant trwy weithio gyda phlant a phobl ifanc
3.
egwyddorion ymarfer sy’n ystyriol o drawma a’i effaith ar ymddygiad
4.
egwyddorion cyfiawnder adferol
5.
pwysigrwydd cadw at godau proffesiynol neu safonau ymarfer
6.
polisïau a gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer cadw cofnodion a rhannu gwybodaeth

Cefnogi plant a phobl ifanc i fynd i'r afael â'u hymddygiad

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Fersiwn rhif** | 3 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Maw 2025 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2030 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Justice |
| **RCU gwreiddiol** | SFJEC8 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Swyddog Cyfiawnder Ieuenctid, Gweithiwr Tîm Troseddwyr Ifanc, Ymarferydd Cyfiawnder Ieuenctid, Rheolwr Tîm Troseddwyr Ifanc |
| **Cyfres/Set** | Cyfiawnder Ieuenctid, Ailsefydlu Troseddwyr |
| **Geiriau Allweddol** | Asesiad a arweinir gan risg; asesu; rhwydwaith, teulu, ymddygiad, cymorth |